


CYFLWYNIAD A DIOLCHIADAU

Unwaith eto, dyma gasgliad o rai o fy hoff alawon gwerin; mae rhai ohonynt yn fwy adnabyddus na'i gilydd ond mae pob un yn ddeniadol ac yn berl o alaw.

Ysgrifennais y gyfrol yma fel ymateb i ddisgyblion ac athrawon telyn sydd wedi gofyn am gyfrol i ddilyn *O'r Dechrau*. Teimlaf fod y trefniannau hyn wedi'u hysgrifennu yn yr un arddull â'r llyfr hwnnw, ond fel yr awgryma'r teitl, mae'n "gam ymlaen" o safbwynt safon chwarae. Beth am feistrolu'r gyfrol hon ac yna camu ymlaen i *Gwledd Geltaidd*, sydd eto yn yr un arddull.

Ar ddiwedd y gyfrol mae nodiadau diddorol wedi'u paratoi gan Dr. Meredydd Evans a Miss Phyllis Kinney ar gefndir y saith alaw; mae fy nyled yn fawr iddynt am eu parodrwydd arferol i fy nghynorthwyo. Hefyd i fy ngŵr, Brian Raby, am ei amynedd a'i awgrymiadau gwerthfawr wrth baratoi'r gyfrol i'w chyhoeddi.

Mwynhewch yr alawon!



INTRODUCTION AND ACKNOWLEDGEMENTS

Once again, here are some of my favourite Welsh folksongs, and although some are more familiar than others each one is a little gem.

I wrote this volume in response to students and teachers who had asked for a sequel to From the Beginning (O'r Dechrau). These arrangements are written in the same style as that book, but as the title suggests, it is a means of "moving on" to arrangements which are more advanced. Why not master this volume before moving on again to A Celtic Feast, another collection of Welsh folksongs written in the same style.

At the back of the book are some interesting notes on the background to the seven melodies, prepared by Dr. Meredydd Evans and Miss Phyllis Kinney: I am indebted to them for their customary and ready assistance. Also, to my husband, Brian Raby for his valuable suggestions and patience while preparing the book for publication.

Enjoy the tunes!
